

---

C R I  
CARCHARORION

D A N

Farn Marwolaeth.

---



---

CAERFYRDDIN:  
ARGRAPHWYD GAN JOHN ROSS, ARGRAPHYDD,  
YN HEOL-AWST,—M,DCC,XCII.

---

---

—I.—

**T**ROM y galon, tra mae gwelydd,  
Mawr yn rhannu oddi wrth garenydd,  
Tad a mam, a phlant a phriod,  
Brawd a chwaer a phob cydnabod,  
Yn dihoeni wrthi hunan,  
Mewn oer gilfach, neu gul ibach yn gwael wban,  
Heb ddim goleu, tân na gwely,  
Na dim moddion, na da ddynion i'w diddanu.

—II.—

Trom y galon tra mae'n gweled  
Cwm'ni atgas diras diriaid,  
A'u drwg gilwg gyd â'u gilydd,  
Yn dir boeni rhyw rai beunydd ;  
Rhai digasog ffyrnig creulon,  
Fel yn Uffern. yma yw'r gethern roir yn gaethion,  
Mewn gwedd ac anian, iaith a gweithred,  
Yn rhai salw, o'r un ddelw a charn o ddiawlaid.

—III.—

Trom ein calon, tra mae'n clywed,  
Screch y ddôr yn gwicho 'n ddiriaid ;  
Trist yw clywed trwst y clouon,  
Yn cau drysau'r muriau mawrion ;  
Dadwrdd lingcau heyrn yn tingcio,  
Ydyw'r clychau a llais main tenau sy yma'n tiwnio ;  
Griddfan cwyn ac oer och'neidiau,  
Fyth breswylia'n holl anniddan hyll anneddau !

—IV.—

Trom y galon tra mae goleu  
I rai 'nabod ein hwynebau,  
Waith llu sy'n cyrchu i mewn i'r carchar  
Bob dydd o rannau pell o'r ddaear,

Er cael mewn cyffes hanes hynod,  
 Faint yn ffaidd yn ein buchedd wnaem o bechod ;  
 Pan addefom, llawer adyn,  
 Sy'n lle tosturio, yn eingwawdio, 'n union gwed'yn.

## —V.—

Trom y galon tra mae gwylwyr  
 Dewr yn cadw'r pyrth yn gywir,  
 Maith fesurau'r muriau mawrion  
 Wna'r gwr a'u gwelo'n oer ei galon :  
 Er ei drengu, rhaid cyn dringo  
 Y fath uwchder, gael rhyw sgeler hlr ysgolion ;  
 Ac amhosibl fyth i gaeth ddyn,  
 Gwthied fynno, allu treiddio, tyllau trwyddyn.

## —VI.—

Trom yw'r galon tra mae'r gwely  
 'N wlyb o danaf, heb ei dannu ;  
 Ar dwsu o wellt heb un dilledyn  
 Rhwng fy moli a'r pridd melyn,  
 Gyd a'r hwyr, mewn cell annifyr  
 Dan gadwynau a mawrion didau heyrn y'm dodir ;  
 Heb neb drwy'r nos, o fewn i'r cyntedd,  
 Rhag fy marw, yma o'u galw, a ry ymgeledd.

## —VII.—

Dymma driniaeth wael druenus,  
 I un a gas ei fagu'n foethus ;  
 Yr wyf fi yn agos i wallgofi  
 Wrth wel'd y newid byd ddaeth immi ;  
 Mynnai fy rhieni mwynaf,  
 Roi bob amser, wely tyner diwael tanaf,  
 A'r man yr awn i mewn rhyw anhwyl,  
 Cawn le cynnes i fi ym mynwes fy mam anwyl.

## —VIII.—

Gan wasgfa gofid, yn lle cysgu,  
 Tynnu ngwallt yr wyf. a gwylltu ;  
 Mynych dreigio, a thywallt dagrau,  
 Wrth wel'd y lle a wnais i'n gartre' ;  
 Yno rhwyfo dwylo a berrau,  
 I gael torri, ac i dynnu 'm hoer gadwynau :  
 Ond yn ol gwingo'm traed i'w herbyn.  
 A bod yn llonydd—mewn egwydydd mae'n hwy  
 gwed'yn

## —IX.—

Côf am oriau dyddiau diddan  
 A boreu mebyd bâr i'm wban !  
 Yn y gwanwyn blodau gwynion,  
 A ddarparent rawnwin purion !  
 Ond pan gododd gwynt ac oerfel  
 Y dail a'r blodau ei gyd a wiwai gyd â'r awel,  
 Ac yn groes i'r hên obeithion,  
 'Nawr y dygant, er mawr soriant, rawnwin surion.

## —X.—

Trom yw calon wirion waraidd,  
 Pawb o'n ceraint mwyn caruaidd,  
 Sy gan gwilydd llym a galar,  
 Bron a ffaelu rhodio'r ddaear :  
 Darfu'n lan, o fewn eu hannedd,  
 Am bob diddig Gân, a miwsic, gwên a maswedd ;  
 Mewn oer henaint mae'n rhieni  
 Yn cydwylo, 'nawr dan gwyno erioed ein geni.!

## —XI.—

Chwi Dadau mwynion os dymunwch,  
 Y doniau goreu i'r plant a gerwch,  
 Er y byd, O ! nac arbedwch  
 Eu ceryddu mewn careiddwch !

Distriwyd

Distriwyd llawer trwy dosturi,  
 Eich plant na yrrwch trwy'ch tirionwch i'r treuni ;  
 Achub llawer llange anhywaeth  
 Gwyllt penhoyden, y mae'r wialen rhag marwolaeth.

## —XII.—

Dysgwch ddeddfau'r Arglwydd iddynt,  
 Ymbiliwch arnynt, gweddiwch drostynt,  
 Arferwch i ryw waith yn foren,  
 Gwiliwch rhag rhoi gormod gwylau,  
 Swydd o'i dilyn wella'r iechyd,  
 Sobra ffyliaid, ac a'u gwared rhag seguryd :  
 Deddfau glan ac ofn yr Arglwydd,  
 Yn yr enaid, fyth ai gwared rhag pob gwradydd.

## —XIII.—

Blentyn ynfyd, cais drugaredd,  
 I'th rieni rho anrhydedd.  
 Tra f'ech blentyn dilyn d'alwad,  
 Ac adnebydd ddydd d'ymweliad ;  
 Oni throï wrth lais d'athrawon,  
 I gael perffaith iechydwrïaeth eurwych dirion,  
 F'allai gwelir dithau'n bruddaidd  
 Mewn carchardy yn difaru am d'oferedd !

## —XIV.—

Ofer ydyw i un fwriadu  
 Yn ei galon, fyth i gelu  
 Gymmaint oll a wnelo o gamwedd  
 A ffoi rhag teimlo dwylo dialedd ;  
 Ym mhen amser, dsw'r hen ddrygau  
 Wnawd mewn twllwch a dirgelwch oll i'r goleu,  
 Wedi rowndio 'r byd i'r *India*,  
 Bydd cosp, er rofyn o hir ddilyn, siwr o ddala.

Nid yw'r ustus mawr a'r tystion,  
 Nid yw'r gwyr a'r gynau duon,  
 Nid yw'r siryf llym ei soriant,  
 Nid yw'r arfog wyr a'i gardant,  
 Ond rhyw nodau dychrynadwy,  
 A chysgodau o ofidiau mwy ofnadwy  
 'R Sessiwn olaf, pan bydd Iesu  
 Mewn mawrhydi, ac heb wyrni yn ein barnu.

## —XVI.—

Y mae'r baich trwm mawr o bechod,  
 Ar fy soddi lawr i'r gwaelod,  
 Daw ngweithredodd erchyll duon,  
 Yn y t'w'llwch fel ellyllon,  
 Dros y gaer a thrwy'r parwydydd,  
 O flaen fy llygaid, oll i'w gweled, o'r hylla 'u gilydd ;  
 A'r sarph cydwybod, rhwng fy nwyfron,  
 Saetha wenwyn ei du golyn hyd y galon.

## —XVII.—

Os hapia rywbyrd, i'm gael heppian,  
 Ni phar yr hân ond ennyd fechan,  
 Rhyw freuddwydion hyll arswydus,  
 A wna 'nghwsg i'n flin brawychus ;  
 Rhedeg weithiau'r ydwy i ngwaetha,  
 Drwy goed a chreigydd, rhag fy nialydd sy ar fy nala ;  
 Myn'd rhwng miloedd yn rhwym eilwaith,  
 Tan lesmeirio, a mawr wylo, i'm marwolaeth.

## —XVIII.—

Trom yw'r galon tra mae'r golwg  
 Ar y gelyn garwa ei gilwg !  
 Yr angau dewr a'i lifrau duon,  
 Wna i'r dewra a'i gwelo dorri ei galon :

Nid all un câr na chyfaill mwynaidd  
 Gynnorthwyo pan y delo poenau a dialedd !  
 I b'le trown pan codo 'storum,  
 Ac erchyllod, y diwrnod mawr du arnom ?

## —XIX.—

O does cyfaill fo'n ein cofio  
 Yn deisyfu gwel'd ein safio,  
 Y rhai nesaf o'n perth'nasau  
 Hyd nod brodyr ofna'n bradau ;  
 Rhoddi tostur farn marwolaeth,  
 Ar lofruddion mawr a lladron mae'r llywodraeth ;  
 Er diogelu i ddeiliaid ffyddlon,  
 Eu bywydau, a'u meddiannau, mewn modd union.

## —XX.—

Ofer disgwyl help o'r bryniau,  
 Nac o liaws y mynyddau !  
 Ni rydd SIOR sy fawr ei soriant,  
 Un addewid o faddeuant  
 Y mae'r gyfraith bur yn bwrw  
 R' adyn lleddffol edifeiriol fyn'd i farw,  
 Er dwys wban nid oes obaith,  
 Gael gan honno, gwedi e digio, gadwedigaeth.

## —XXI.—

Arglwydd graslon, tirion, tyred,  
 O'm gerwi'n gyflwr yma i'm gwared,  
 'Tor y rhwymau a'r clymmau a'r cloyon,  
 Sy'n dyn gul am dan y galon ;  
 Er bod dynion, am ei bechod  
 Mawr anafus a duwarthus wedi wrthod,  
 Dyro i'r gwaela eriod d'ymgeledd,  
 A chael gweled dôr agored i'th drugaredd.

Mae hanesion i Manasseh,  
 O ryw fan fel lle 'r wyf finnau,  
 Er ei gamwedd gael dy gymmod,  
 A'i ryddhau o'r baich o bechod :  
 Y gwaed dywelltais waedda am ddialedd ;  
 Gwaed yr Iesu, sy'n eirioli am drugaredd ;  
 Gwranddo O Dad ar ei eiriolaeth,  
 Pan bwy i'n marw,—a mawr elw fydd marwolaeth.

T E R F Y N .

[DAVID DAVIS, Castell Hywel af canodd].

## N O D I A D.

Yn 1906, pryd yr adargraffodd Mr J. D. Lewis, Llandyssul yr Hen Gân a argraffwyd gan Z. B. Morris yn 1818, ac a'i galwodd yn ail argraffiad, nid oedd Cân 1792 yn wybyddus hyd nes daeth copi i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1921. O'r copi prin yna, trwy ganiatad Mr. John Ballinger, C.B.E., M.A., cafwyd gwawl-lun o ohoni. Gan ei bod yn gwahaniaethu oddiwrth Cân 1818 a 1906, tybiais y gallai fod yn dderbyniol gan lawer gael y Gân fel y ddaeth o'r argraffwasg gyntaf.

Gelwir hon yn ail argraffiad o'r Gân 1792.

**JOHN DAVIES,**

(Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth).

Adargraffwyd hon gan John Davies (Ieu), trwy ganiatad y Mri. D. Jones a'i Feibion. Caerfyrddin.

1923.

Ysod;  
 gweler  
 "Llyfr."  
 "Gymn."  
 32,  
 1792;  
 ac y  
 mae  
 copi  
 yn  
 Llyfrgell  
 Gymreig  
 Caerdydd  
 on  
 1899.  
 J.J.